# cofnodion

**Y Senedd**

**27/10/2025**

## Aelodau presennol:

- Francesco Lanzi (cadeirydd)
- Millicent Hackett (SLlA)
- Nanw Hampson (SLlA)
- Ffion Johns (SLlA)
- Esperanza Bizama (SLlA)
- Tanaka Chikomo (SLlA)
- Natasha Goodwin (SG)
- Billy Smith (SG)
- Harley Harrison (SG)
- Kathleen Hinton Pritchard (SG)
- Livvy Hagget (CYMDEITHASAU)
- Spencer Tinklin (SC)
- Elliw Mair (SG)
- Mason Gee (SG)
- Laura Young (SG)
- Melissa Eyre (PG)
- Gwenno Roberts (UMCA)
- Tomos Parry (UMCA)
- Florence Rawlinson (CA)
- Ula Archer (CA)
- James Shepherd (chwaraeon)
- Mathias Pavlides (chwaraeon)
- Janos Vranek (chwaraeon)
- Max Rycroft (chwaraeon)
- Saul Ashton (chwaraeon)
- James Ashfort (CYMDEITHASAU)
- Kate Crowther (CYMDEITHASAU)
- Alex Marsh (CYMDEITHASAU)
- Varsha Raj (SC)

**Hefyd yn bresennol: (Gwylwyr o'r Myfyrwyr)**

## Yn absennol:

Blue Bell (SG) Ni Anfonwyd Ymddiheuriadau

Duraab Arshad (SG) Anfonwyd Ymddiheuriadau

Fresno Rhys Thomas (SG) Ni Anfonwyd Ymddiheuriadau

Mesh Tamilchelven (SG) Anfonwyd Ymddiheuriadau

Priyanka Singh (SG) Ni Anfonwyd Ymddiheuriadau

Cecilia Rudbaeck (CYMDEITHASAU) Ni Anfonwyd Ymddiheuriadau

| **Agenda** | Eitem | Nodiadau | **Crynodeb o'r Pleidleisio** | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **O blaid** | **Yn erbyn** | Ymwrthod |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Sylwadau croesawu ac agoriadol** | Croesawodd Cadeirydd yr Undeb bawb a fynychodd y cyfarfod | Croesawodd Cadeirydd yr Undeb bawb i'r cyfarfod.<br>Cychwynnwyd y cyfarfod: 6:10 | | | |
| | Ymddiheuriadau am Absenoldeb | Anfonwyd 2 Ymddiheuriad | | | |
| | Cofnodion y cyfarfod cynt a'r materion a godir | Caed camsillafu o ychydig o enwau yn y cofnodion blaenorol. Diweddarwyd hyn | | | |
| Polisïau sy'n dod i ben: | Diweddariadau | Dylai'r Undeb leihau prynu'n fewnol gan Amazon. | | | |
| Adroddiad y Swyddogion | Soniff y Swyddogion am yr hyn maent yn gweithio arno ac am eu blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn. | Rhoddodd y Swyddogion ddiweddariad ar yr hyn maent yn gweithio arno.<br><br>Cwestiynau:<br>Millie - Dim<br><br>Tanaka - Dim<br><br>Ffion - Dim<br><br>Espe - pa gymdeithas academaidd oedd ynghlwm â'r trafod - mathematig, Ffiseg, hanes ac un arall na allaf i gofio mo'i henw.<br><br>Nanw - dim | | | |
| **Syniad 1: A ddylai'r Undeb newid enw'r Swyddog** | Araith y Cynigydd | Fe'i triniwyd gan Kathleen (SG)<br><br>Siaradodd Kathleen am y syniad. Dywedodd fod yr enw presennol yn amwys, ac nad yw pobl yn deall ei ystyr. Mae | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Myfyrwyr Annibynnol i Swyddog Gofal Aber** | | Gofal Aber yn cyfeirio at y grant y mae myfyrwyr yn gall manteisio arno. Mae rhai myfyrwyr o'r farn mai rhywun yn byw yn annibynnol ar eu rhieini yw myfyriwr annibynnol.<br><br>Yn erbyn y syniad: Neb | | | |
| | Cwestiynau / Sylwadau | James (CYMDEITHASAU) - a fyddai'n berthnasol i'r un myfyrwyr - byddai ond o dan enw gwahanol<br><br>Millie (SLIA) - pan yn ymgeisio am grantiau trwy ffioedd myfyrwyr Cymru - gelwir 'annibynnol neu wedi ymddieithrio'. Does dim arall yn adlewyrchu yr hyn a geir yn y Brifysgol Dwi'n cytuno â newid yr enw ond ddim yn siŵr o 'Gofal Aber' ac mae hyn yn teimlo'n rhy gysylltiedig â'r brifysgol.<br>- Mae'n anodd meddwl am enw sy'n cynrychioli pawb. Dyw myfyrwyr annibynnol ddim yn teimlo eu bod yn annibynnol.<br><br>Harley (SG) - tasai Gofal Aber yn newid byddai hyn yn newid yr enw<br>- Dyma hyrwyddo'r grant am ddim Gall cyfeirio ato'n fwy uniongyrchol helpu myfyrwyr annibynnol | | | |
| | Adborth gan Grwpiau Trafod | • Nanw (SLIA) dwi'n cytuno â Millie - peth sy'n perthyn i'r Brifysgol yw hynny, gall y tebygrwydd ymddangos yn rhyfedd. Gwell yw enw'r Swyddog myfyrwyr annibynnol ond mae'n rhaid rhoi natur y rôl ar ddeall yn well. Mae'r cyfieithiad Cymraeg hefyd yn wael.<br>• Ffion (SLIA) rydyn ni'n cytuno ac ni wnaethom. Rydyn ni'n meddwl mai da yw newid yr enw ond efallai nad Gofal Aber. Byddwn yn poeni am y swyddog yn cael ei weld yn gynorthwydd | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | gweinyddol Rhoi ar ben y ffordd yw ei hanfod fodd bynnag. Byddwn yn poeni am ddyblu<br>• Espe (SLIA) newidiwch yr enw ond nid i Gofal Aber<br>• Millie (SLIA) mae Gofal Aber yn gwneud i fi feddwl am ofalwyr, sy'n waeth na swyddog annibynnol. Mae'n anodd bathu rhywbeth arall. Mae gan rai undebau y swyddog myfyrwyr wedi ymddieithrio a gofalwyr Gallai fod yn llond ceg Efallai ei bod yn broblem gyda marchnata i ddangos ystyr y rôl.<br>• Alex (CYMDEITHASAU) rydyn ni'n cytuno â phawb arall. Mae'n rhoi'r argraff fod ffocws ar les meddyliol yn hytrach na bod yn annibynnol Hynny yw eu bod yn gofalu am eich lles.<br><br>Fran (cadeirydd) - os oes eisiau newid yr enw ar bobl ond nid i'r enw hwn, gwrthodwch y syniad a gallwn weithio ar enwau gwahanol a dod ag ef i'r Senedd yn ôl. | | | |
| | Sylwadau Eraill | | | | |
| | Y Bleidlais | **Gwrthodwyd y Syniad hwn** | 3.85 | 96.15 | 0 |
| **Syniad 2: Gweithdrefn Gymeradwyo Ethol Llywydd UMCA** | Araith y Cynigydd | Fe'i triniwyd gan Nanw (SLIA)<br><br>Siaradodd Nanw am y syniad a mynegodd pam fod angen am y syniad hwn. Esboniodd sut mae'n gweithio ar hyn o bryd a ble mae'r problemau gyda'r ffordd bresennol Esboniodd sut y byddai'n gweithio wrth symud ymlaen os ydy'r Senedd yn fodlon rhoi sêl bendith.<br><br>Siarad yn erbyn: Neb | | | |
| | Cwestiynau / Sylwadau | Melissa (PG): a fyddai proses debyg yn cael ei gweithredu gyda grwpiau lleiafrifol eraill?<br>Fran (Cadeirydd): esboniodd sut mae pleidleisio yn gweithio ar gyfer Swyddogion Gwirfoddol Fodd bynnag, ni ellir ei | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | weithredu gan y byddai'n mynd yn groes i ddeddfau elusennol gan fod Swyddogion Llawn Amser yn ymddiriedolwyr<br><br>James (CYMDEITHASAU) - beth yw cynnig y syniad<br>Nanw - byddai'n rhaid ei gadarnhau gydag etholiadau Dydyn ni ddim yn hollol siŵr o'r logisteg Efallai byddai bwlch rhwng cau'r sefyll a chyhoeddi ymgeiswyr lle gallent gwrdd â'r pwyllgor craidd (ond nid os byddant yn sefyll yn yr etholiadau) a byddai hyn yn caniatáu i bwyllgor craidd UMCA graffu ar yr ymgeiswyr. Ni ddylai gael effaith ar amserlen pawb arall.<br><br>Harley (SG) - sut byddwch chi'n sicrhau na chaiff y broses ei cham-drin gan y pwyllgor?<br>Nanw - Rydyn ni'n sôn am degwch y broses gan gynrychioli heb eithrio neb. Bydd rhaid cyfiawnhau seiliau dros eithrio unrhyw un os felly. Byddai'n fodd o osgoi rhywun sy'n dweud eu bod am gael gwared ar weithgarwch yn y Gymraeg - byddai'n gofyn am achos eithafol ond byddwn yn gweithio ar y meini prawf gyda'r brif weithredwraig.<br><br>Mesh (SG) - a fyddai hyn yn golygu y byddai pwyllgor UMCA yn gwrthod y llywydd?<br>Nanw - os ydych chi am sefyll i fod yn Llywydd UMCA, mae'r pethau sydd angen arnoch yn rhyfedd ac od braidd. Sgwrs fyddai hyn yn fwy na dim gan fel mae hi ar hyn o bryd, gallech chi fod yn gymwys i sefyll am y rôl ond heb wneud unrhyw un o'r pethau eraill.<br>Mesh (SG) oes mesurau diogelu fel y gall rhywun ddod i mewn â syniad sy'n mynd groes i'r pwyllgor presennol ond bod y llwyfan yn dda. ee tasai'r pwyllgor presennol ddim yn hoff ohonynt yn unig. | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Nanw - byddai rhaid i ni ystyried feto'r llais ond un anodd yw hyn<br><br>Elliw (SG) - bydd rhaid cyfiawnhau seiliau dros unrhyw wrthod. Dyddiau cynnar yw hi i'r broses. Dydyn ni ddim yn hollol siŵr o'r broses ond ein bod yn ymwybodol o'r gwendid hwn.<br>Nanw: Llais dros y myfyrwyr Cymraeg yw hyn, felly mae'n rhaid i ni sicrhau fod y person gaiff ei ethol yn cynrychioli myfyrwyr Cymraeg eu hiaith.<br><br>Tomos (UMA) - nid yw pawb yma yn aelod o UMCA, felly oes modd i ti esbonio sut mae aelodaeth UMCA yn teimlo ynghylch hyn hefyd.<br>Nanw (SLIA) - daw o dan y gwaith ar y cyfansoddiad ar droed ar gyfer UMCA. Testun pryder mawr i aelodau UMCA yw hyn, felly credaf mai rhywbeth y mae'n rhaid i ni gymryd i ystyriaeth wrth ei drafod yw hyn. Gall wynebu'r bleidlais hon fod yn bryder bob blwyddyn<br><br>Harley (SG) beth am y gwaith ynghylch y gwrthdaro buddiannau<br>Nanw (SLIA) - os oes rhywun yn sefyll yn yr etholiad, chân nhw ddim bod yn rhan o unrhyw ran o'r broses gan y byddai hyn yn wrthdaro buddiannau.<br><br>Millie (SLIA) opsiwn arall yw cael aelod staff o'r Undeb neu ymddiriedolwr allanol i fynychu'r cyfarfod hwn i fod yn ganolwr a chefnogi dilysu'r broses.<br>Nanw (SLIA) caiff hyn ei adrodd yn ôl | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Harley (SG) - a fydd y cyfiawnhad yn derfynol ac a oes rhywbeth y gellir ei gynnwys neu beidio?<br>Fran (cadeirydd) - credaf y bydd trafod yn rhan o'r broses. Dwi am ganiatáu y cwestiwn hwn, ond mae hyn yn ymwneud â phethau rydyn ni wrthi'n gweithio arnynt gan nad hyn yr hyn rydyn ni'n ei ddadlau mo hyn.<br>Nanw (SLlA) - byddai unrhyw broses yn cael ei benderfynu gyda Jacob a Trish i sicrhau fod proses deg.<br><br>Elliw (SG) - fel llais rhywun sydd â rhan yn y broses, rydyn ni ond megis dechrau arni. Rydyn ni'n mynd trwy gyfansoddiad hen iawn ac yn ei ddiweddaru ar y cyd â'r undeb. Os oes gennych chi unrhyw bryderon, siaradwch â ni oherwydd ei bod hi'n dda i ni ystyried y pwyntiau hyn. | | | |
| | Adborth gan grwpiau trafod | Gwenno (UMCA) - dwi'n hapus gyda syniadaeth y broses. Dyw siarad Cymraeg yn rhugl ddim yn ddigon - mae'n ymwneud yn bennaf â chredoau. Mae angen y polisi i amddiffyn UMCA.<br><br>Millie (SLlA) - rydyn ni'n gefnogol. Rydyn ni'n gwybod pe bai rhywun sy'n casáu UMCA yn cael eu hethol i'r swydd y byddai'n niweidiol iddo. Gyda'r sefyllfa wleidyddol i warchod y Gymraeg yn y Brifysgol ar y gweill - fyddai'r Brifysgol ddim yn ei oddef.<br><br>Espe (SLlA) - cytuno, fe wnaeth synnwyr - dim pryderon.<br><br>Ffion (SLlA) - yr un o'm rhan i. Dyw llawer ohonom ddim yn UMCA, felly dim ond rhesymol yw gwrando ar y bobl sy'n cael eu cynrychioli.<br><br>Harley (SG) - unwaith ei dynhau, cyflwynir y broses i'r Senedd yn ôl. | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cadeirydd - na, wnawn ni bleidleisio yma lle byddwn yn codi materion. Caiff ei gynllunio a'i drefnu yn fanwl gan yr Undeb<br>Millie - bydd rhaid i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr roi'r gymeradwyaeth derfynnol.<br>Nanw - rydyn ni'n ystyried popeth a godwyd heddiw. rydyn ni'n ymchwilio i'r pethau hyn. | | | |
| | Sylwadau Eraill | Nanw - fel grŵp lleiafrifoledig yn Aber, ac o ystyried yr heriau ariannol o du'r brifysgol, mae'n bwysig ein bod yn amddiffyn UMCA a'r Gymraeg.<br><br>Harley (SG) - dwi'n ei gefnogi mewn egwyddor a chredaf y dylem amddiffyn UMCA a'r Gymraeg ond mae gen i rywfaint o bryderon ynghylch y cam-drin o'r weithdrefn ond logisteg yw hynny oll. | | | |
| | Pleidlais | **Pasiwyd y Syniad hwn** | 100 | 0 | 0 |
| **Polisi: Gwasanaethau Golchi Dillad am ddim yn Llety'r Brifysgol** | Cwestiynau a sylwadau | Fran (cadeirydd) esboniodd pam ein bod yn dod â'r syniad yn ei ôl i'r Senedd i drafod beth y gallwn ei wneud. | | | |
| | Cwestiwn 1: Pa heriau mae'r myfyrwyr yn eu hwynebu | - Espe (SG) Rydyn ni'n deall lle mae'r materion wedi bod. A fyddai'n werth siarad â'r undebau eraill i weld beth maen nhw'n ei wneud a chodi twrw i ddweud os mae'r myfyrwyr yn talu amdano, yna y dylai weithio yn well.<br>- Harley (SG) - gwasanaeth ofnadwy a drud iawn. Dyw'r cwmni ddim yn trin gweithwyr yn iawn. Dwi wedi clywed hanesion am lwydni yn y peiriannau golchi.<br>- Tanaka (SLIA) problemau cynnal. Byddai gan fyfyrwyr fwy o ffydd yn y system pe basen nhw'n gwybod bod gwasanaethau rheolaidd i'w cael. Dyw myfyrwyr ddim yn disgwyl llawer ganddo. | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | - Millie (SLIA) dylai'r gost a delir gael ei hadlewyrchu. mae 3 allan o ddefnydd ers yr wythnos ddiwethaf felly mae mwy o bobl yn stwffio mwy o olch i mewn i'r rheini sy'n gweithio. Mae modd i chi anfon neges i gael eich arian yn ôl os nad yw'r pethau yn gweithio ac efallai y gallai'r Undeb hyrwyddo hyn. EE, os ydych chi'n sychu eich dillad ac nid yw'n gweithio, gallwch hawlio eich arian yn ôl - mae rhaid i chi ddyfalbarhau. | | | |
| | Cwestiynau 2: Beth sydd bwysicaf a'r syniadau ar gyfer yr Undeb. | - Millie (SLIA) - hyrwyddo darn yn sôn wrth bobl am faint i'w lwytho mewn golchiad a beth i'w wneud pan dorrith. Mae'n rhaid i ni ymchwilio i bwy sy'n trwsio (circuit neu'r brifysgol) Os y brifysgol sy'n gwneud y cynnal a chadw, allwn ni ei adrodd trwy systemau'r brifysgol?<br>- Tanaka (SLIA) - posteri yn y golchdy i ddweud 'oeddech chi'n gwybod bod modd hawlio arian yn ôl os na fydd yn gweithio.' Rhowch opsiynau rhatach megis golchi â llaw os na allwch wneud golch. Ffeindiwch y cyswllt allweddol yn y brifysgol sydd mewn cysylltiad â circuit laundry.<br>- Harley (SG) i helpu lleihau dibyniaeth fyfyrwyr ar circuit laundry. Dwed tasai gan bob llety geffyl dillad.<br>- Elliw (SG) mae'n rhaid i'r undeb ddangos mai rhywbeth y mae'r undeb yn gweithio arno yw hyn. Oes rhaid i ni wneud mwy i hyrwyddo polisïau ymysg myfyrwyr<br>- Espe (SLIA) magu perthynas â circuit laundry. Ar y wefan, mae'n deud fod ganddo lysgenhadon golchdy a rheolwr sy'n goruchwylio myfyrwyr ond does dim sôn am bwy. | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Unrhyw faterion eraill | | - Millie (SLlA) pwt ar gynaliadwyedd i ddweud pa mor aml y dylid golchi dillad. Hefyd hyrwyddo bod modd i chi ddefnyddio peiriannau eraill mewn llety eraill.<br>- Harley (SG) golchi â llaw - gallem ni gynnig bordydd golchi.<br>- Laura (SG) golchi tu mewn allan fel na chaiff pethau eu malu. | | | |
| | | • Hyfforddiant Straeon am Newid<br>• Cynllunio Ymgyrchoedd - Blaenoriaeth yr Undeb<br>• Hyfforddiant Dim Esgusodion<br>• Bwrdd Cynghori ar Brosiectau Gwirfoddol a Chlybiau Chwaraeon | | | |
| **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf** | | Cyf Cyff - 9fed Mawrth | | | |

(SLlA)=Swyddogion Llawn Amser

**(SG)=Swyddogion Gwirfoddol**

**(SC)= Swyddog Cyfadran**

**Chwaraeon=Cynrychiolydd Chwaraeon**

(CYMDEITHASAU)=Cynrychiolydd Cymdeithasau

**UMCA = Cynrychiolydd UMCA**

**PG = Cynrychiolydd Prosiectau Gwirfoddol**

**CA = Cynrychiolydd Academaidd**

**Aelodau = Aelodau o’r Undeb Aber ond nid Aelod o’r Senedd**